

Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit

Mehfin 2018

Dull gweithredu

Ar Mai 10, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar drefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit. Cafodd y Pwyllgor gyfle i geisio barn panel o arbenigwyr ynghylch y trefniadau posibl ar gyfer y dyfodol. Dyma aelodau'r panel:

Yr Athro Richard Cowell, yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd; Dr Victoria Jenkins, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe; a'r Athro Maria Lee, Cyfadran y Gyfraith, Coleg Prifysgol Llundain.

Ar 16 Mai, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy rhanddeiliaid i drafod y pwnc hwn. Mae rhestr lawn o'r rhai a oedd yn bresennol wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

1. Y “bwlch llywodraethu” ar ôl Brexit

1. Mae cryn bryder ar draws y sector amgylcheddol na fydd cymaint o bwyslais ar nifer o'r swyddogaethau llywodraethu sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan gyrrff yr UE yn dilyn Brexit. Mae hyn yn peri'r risg o greu bwlch llywodraethu amgylcheddol. Mae rhanddeiliaid o'r farn bod angen ymwreiddio'r swyddogaethau gorfodi a rheoleiddio, yn ogystal â'r swyddogaethau datblygu polisi ehangach, ym mhensaernïaeth llywodraethu amgylcheddol y DU.

Swyddogaethau llywodraethu amgylcheddol presennol yr UE

2. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd, Llys Cyfiawnder Ewrop a chyrrff Ewropeaidd eraill rôl bwysig o ran gweithredu a gorfodi cyfreithiau amgylcheddol ar draws yr UE.



- 3.** Gall y Comisiwn Ewropeaidd gymryd camau gorfodi yn erbyn Aelod-wladwriaethau am beidio â chydymffurfio â chyfraith yr UE. Gall trydydd partïon, gan gynnwys dinasyddion a sefydliadau cymdeithas sifil, ddod â chwynion i'r Comisiwn Ewropeaidd. Yn aml, ymdrinnir â chwynion ynghylch peidio â chydymffurfio drwy drafodaeth.
- 4.** Gall Llys Cyfiawnder Ewrop wrando ar achosion o beidio â chydymffurfio â chyfraith yr UE sy'n cael eu dwyn gan y Comisiwn Ewropeaidd neu Aelod-wladwriaethau. Gall peidio â chydymffurfio â dyfarniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop arwain at ddirwy. Gellir gofyn i Lys Cyfiawnder Ewrop hefyd am ddyfarniad ar ddehongliad o gyfraith yr UE os yw unigolyn yn cyflwyno achos mewn llys cenedlaethol sy'n cymhwyso chyfraith yr UE yn uniongyrchol.
- 5.** Yn ogystal â'i swyddogaethau gorfodi, mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn ymgymryd â rôl ehangach mewn perthynas â llywodraethu amgylcheddol. Mae'n:
 - gwerthuso ac yn adrodd ar effeithiolrwydd Aelod-wladwriaethau o ran gweithredu cyfraith a pholisïau'r UE;
 - llywio cyfeiriad hirdymor polisïau'r UE drwy fapiau ffyrdd, rhaglenni gweithredu a strategaethau datblygu cynaliadwy. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan tua 500 o weision sifil sy'n gweithio yn adran amgylcheddol y Comisiwn Ewropeaidd: Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr Amgylchedd.
- 6.** Mae'r gwaith o ddatblygu polisïau Ewropeaidd yn cael ei gefnogi gan waith sawl asiantaeth Ewropeaidd, fel Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, yr Asiantaeth Cemegolion Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop.

2. Corff llywodraethu olynol?

Swyddogaethau corff olynol

- 7.** Yn ystod yr ymchwiliad, awgrymwyd bod Brexit yn cynnig cyfle i ailedrych ar y trefniadau ar gyfer llywodraethu amgylcheddol ac ystyried sut y gellir gwella atebolrwydd cyfreithiol a gwleidyddol.
- 8.** Lansiodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ymgynghoriad ar y materion hyn ym mis Mai¹. Gwnaed hyn cyn cyflwyno Bil DU

¹ <https://consult.defra.gov.uk/eu/environmental-principles-and-governance/>

Drafft ar Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol, a ddisgwylir yn yr hydref. Cafodd rhanddeiliaid eu siomi gan y dull gweithredu sydd wedi'i nodi yn ymgynghoriad Defra; roeddent o'r farn ei fod yn rhy wan ac yn cynrychioli cyfle a gollwyd. Er enghraifft, nid oedd yr ymgynghoriad yn sôn am ddatrys anghydfodau, er bod hwn yn bwnc pwysig iawn. Roeddent hefyd o'r farn bod y defnydd arfaethedig o "hysbysiadau cynghori" yn annigonol a bod diffyg grym yn perthyn iddynt.

9. Awgrymwyd mai dyma'r swyddogaethau y dylai corff olynol eu harfer:

- Hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd ymhlith gweithredwyr y llywodraeth a'r gymuned ehangach;
- Monitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir wrth weithredu cyfreithiau amgylcheddol, a darparu data gwyddonol hanfodol;
- Cymryd camau lle nad yw targedau neu amcanion yn cael eu cyflawni, er enghraifft drwy osod sancsiynau economaidd;
- Sicrhau bod gan ddinasyddion a sefydliadau'r gymdeithas sifil fynediad at y systemau cwyno a gorfodi; a
- Mabwysiadu strategaeth bolisi hirdymor sy'n mynd y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol.

10. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod yn rhaid i'r swyddogaethau hyn gael eu hategu gan drefn adrodd dryloyw a manwl, a hynny er mwyn sicrhau bod modd dwyn llywodraethau i gyfrif.

11. Nododd yr Athro Cowell y bydd effeithiolrwydd unrhyw gorff yn y dyfodol sy'n arfer y swyddogaethau hyn yn cael ei ddylanwadu gan natur cyfraith amgylcheddol y DU yn dilyn Brexit. Mae camau gweithredu'r Comisiwn Ewropeaidd ar fonitro a gorfodi wedi bod yn effeithiol yn sgil y targedau mesuradwy a'r llinellau amser clir a bennwyd yn neddfwriaeth yr UE.

12. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn nad oes gan unrhyw gyrff domestig, naill ai ar lefel y DU neu ar lefel Cymru, yr adnoddau, yr annibyniaeth, yr arbenigedd neu'r pwerau ar hyn o bryd i arfer y swyddogaethau rheoleiddio a'r swyddogaethau polisi ehangach sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

13. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y ffaith nad yw'r broses o gynnal adolygiadau barnwrol yn y DU yn addas ar gyfer disodli trefniadau llywodraethu cyfredol yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ddelfrydol, sut beth fydd y corff olynol?

- 14.** Gofynnwyd i randdeiliaid drafod y cyrff sydd eisoes yn bodoli a allai gymryd y cyfrifoldeb dros gyflawni'r swyddogaethau llywodraethu. Defnyddiodd yr Athro Cowell y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd fel enghraifft o gorff sy'n ymwneud â monitro a gorfodi polisiau. Fodd bynnag, byddai'n rhaid newid ei swyddogaethau mewn modd sylfaenol er mwyn caniatáu iddo lenwi'r bwlch llywodraethu posibl ac ymdrin â materion amgylcheddol ehangach.
- 15.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn enghreifftiau o gyrff yng Nghymru a awgrymwyd eisoes fel sefydliadau a allai gymryd camau pellach yn y maes hwn. Fodd bynnag, cawsant eu diystyru yn sgil y newid sylfaenol a fyddai'n ofynnol o ran eu swyddogaethau, ac yn sgil eu diffyg adnoddau. Roedd teimlad nad oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, lefel ddigonol o annibyniaeth, a theimlad hefyd nad oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddigon o ffocws ac arbenigedd amgylcheddol ar hyn o bryd.
- 16.** Felly, roedd barn gadarn ymhlith y rhanddeiliaid fod angen corff newydd i wneud y gwaith a ganlyn:
- monitro gweithrediadau'r llywodraeth wrth gyflwyno deddfwriaeth amgylcheddol;
 - cymryd camau gorfodi effeithiol mewn perthynas â deddfwriaeth a darparu system gwyno hygyrch i ddinasyddion.
- 17.** Fodd bynnag, mynegwyd cryn bryder ynghylch y ffaith nad oes digon o amser ar gael i sefydlu corff o'r fath cyn i'r DU adael yr UE.
- 18.** Mae ymgynghoriad Defra ond yn ymwneud â Lloegr a materion nad ydynt wedi'u datganoli. Fodd bynnag, yn yr ymgynghoriad, gwahoddir y gweinyddiaethau datganoledig i gydweithio at ddibenion datblygu trefniadau ar y cyd ar gyfer y corff llywodraethu amgylcheddol a'r egwyddorion amgylcheddol. Mewn ymateb i ymgynghoriad Defra, dywedodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, fod llywodraeth Cymru yn siomedig nad oedd wedi bod yn destun ymgysylltu llawn cyn y cyhoeddiad, ond ei bod yn barod i gydweithio. Dywedodd hefyd ei bod hi'n gweithio ar y mater hwn gyda Grŵp Bord Gron llywodraeth Cymru ar Brexit.
- 19.** Awgrymodd rhanddeiliaid y byddai'n briodol i'r corff olynol fod yn gorff ar gyfer y DU gyfan. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod corff ar gyfer y DU gyfan yn

cael ei gyd-gynllunio gan bob rhan gyfansoddol o'r DU, bod ganddynt gydberchnogaeth drosto, a bod y gweinyddiaethau a'r deddfwrfeydd datganoledig yn chwarae rhan lawn yn y broses. Dywedodd yr Athro Cowell fod manteision y dull hwn o gydweithio yn cynnwys:

- arbedion effeithlonrwydd drwy gydweithio;
- cydweithio ledled y DU, o ystyried y bydd y ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n dilyn Brexit, yn ôl pob tebyg, yn ddarostyngedig i wahanol fathau o fframwaith cyffredin;
- rhannu arbenigedd;
- mwy o annibyniaeth ar y drefn wleidyddol sy'n gysylltiedig â llywodraethau unigol;
- cydnabyddiaeth ynghylch y ffaith nad yw materion amgylcheddol yn parchu ffiniau cenedlaethol; ac
- ymrwymiad a statws gwell drwy gydweithio.

20. Cytunwyd y dylai unrhyw gorff newydd fod yn annibynnol ar y llywodraeth. Fel sail i'w annibyniaeth, dylai'r corff gael ei ariannu gan gynulliadau a seneddau cenhedloedd cyfansoddol y DU. Awgrymodd yr Athro Lee y bydd ystod o ffynonellau ariannu yn gwneud y corff yn fwy cadarn ac annibynnol. Fodd bynnag, mae hwn yn fodel nad oes cysail iddo yn y DU, ac mae'n anodd gweld sut y gallai'r corff fod yn atebol i bedwar cynulliad neu bedair senedd.

21. Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr na ddylai bodolaeth corff ar lefel y DU atal unrhyw ran gyfansoddol o'r DU rhag cael ei chorff ei hun, pe bai'n dymuno gwneud hynny. Roedd cydnabyddiaeth y gallai hyn ymddangos fel trefniant mwy cymhleth y byddai angen mwy o adnoddau arno. Fodd bynnag, gallai system lywodraethu sy'n gweithredu ar lefel y DU ac ar y lefel ddatganoledig—sef y model "four plus one"—arwain at fuddion.

22. Roedd cydnabyddiaeth y byddai goblygiadau cost sylweddol ynghlwm wrth sefydlu corff newydd, naill ai ar lefel y DU neu ar lefel Cymru. Roedd cydnabyddiaeth y dylai Cymru wneud cyfraniad ariannol priodol os yw'r corff newydd i weithredu ar lefel y DU. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith na fyddai adnoddau digonol yn cael eu darparu i gorff newydd yng Nghymru pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu y dylai'r drefn gyllido ar gyfer yr amgylchedd fod yn ddarostyngedig i fformiwla Barnett.

23. Ymddengys fod pryder ymhlith rhanddeiliaid y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio cyflwyno safonau amgylcheddol is ar gyfer Lloegr. Maent o'r farn y byddai cael corff ar gyfer y DU, wedi'i lunio gan y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, yn ffordd o liniaru'r risg honno. Yn wir, disgrifiwyd y cam o gael corff ar gyfer y DU gyfan fel ffordd o "reoli Lloegr", os oes gan Lywodraeth y DU ddyheadau is na'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas ag ansawdd yr amgylchedd.

24. Y dull gweithredu a ffefrir gan y rhanddeiliaid yw cael corff ar lefel y DU. Serch hynny, awgrymodd Dr Jenkins opsiwn amgen, sef y gallai pob un o genhedloedd cyfansoddol y DU sefydlu ei chorff ei hun. Byddai cydlynu effeithiol rhwng y cyrff hyn yn hanfodol. Beth bynnag, byddai angen mecanwaith i ddatrys anghydfodau rhwng llywodraethau.

25. Awgrymodd yr Athro Cowell y gallai'r DU neu'r gwledydd datganoledig, yn ogystal â chael corff annibynnol ar gyfer monitro a gorfodi, sefydlu llys cyflafareddu pwrpasol i glywed achosion amgylcheddol, fel sydd wedi digwydd yn Seland Newydd.

Barn y Pwyllgor

Drwy ei haelodaeth o'r UE, mae'r DU yn elwa o fod yn rhan o system lywodraethu amgylcheddol aeddfed a chadarn. Mae'n wir i ddweud bod gan y system bresennol wendidau mewn rhai meysydd, ond mae'n amlwg bod y system hon o gyd-lywodraethu wedi arwain at welliannau yn yr amgylchedd.

Y system lywodraethu hon sy'n sicrhau bod Aelod-wladwriaethau yn cydymffurfio â safonau amgylcheddol y cytunwyd arnynt. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae ClientEarth wedi dwyn achos yn erbyn y DU yn llysoedd y DU, a hynny o dan gyfraith yr UE, mewn perthynas â thorri safonau ansawdd aer cyfreithiol. Yn y pen draw, gallai'r DU wynebu achosion o dorri rheolau gan y Comisiwn Ewropeaidd a ategir gan ddirwyon yn Llys Cyfiawnder Ewrop.

Ar ôl i'r DU adael yr UE, bydd angen disodli'r trefniadau llywodraethu hyn. Wrth gwrs, gwleidyddion fydd yn penderfynu i ba raddau y bydd y trefniadau presennol yn cael eu dyblygu. Fodd bynnag, ymddengys fod consensws ymhlith y llywodraethau datganoledig a llywodraeth y DU fod angen system olynol.

Bydd llunio trefniadau llywodraethu newydd yn gyfle i fynd i'r afael â'r gwendidau sydd ynghlwm wrth y trefniadau presennol ac i sicrhau ein bod yn adeiladu ar gryfderau'r trefniadau hynny. Bydd angen adnoddau, cyllid ac arbenigedd sylweddol ar unrhyw system newydd.

Fodd bynnag, mae ein hamser yn prysur ddirwyn i ben. Mae llawer i'w wneud er mwyn sicrhau bod gan Gymru a'r DU system ar waith i lenwi'r "bwlch llywodraethu", fel y'i disgrifiwyd gan randdeiliaid, hyd yn oed o ystyried yr amser ychwanegol a ganiateir gan y cyfnod trosiannol. Er bod angen y drefn hon ar frys, mae angen sicrhau ei bod yn cael ei sefydlu'n iawn. Fel y dywedodd yr Athro Cowell wrth y Pwyllgor, mae perygl y bydd y DU a Chymru yn rhuthro i ddisodli'r system lywodraethu bresennol ac yn cael eu clymu i ddatrysiad nad yw'n ddelfrydol ac sy'n ddrud i'w ddadwneud.

Mae ein rhanddeiliaid yn glir am y ffaith nad oes unrhyw gyrff yn y DU na Chymru, yn ôl eu cyfansoddiad presennol, a allai ymgymryd â rôl y rheolydd a'r corff gorfodi yn llawn. Maent o'r farn bod angen corff newydd i ymgymryd â'r rôl hon. Mae hon yn dasg sylweddol.

Cred rhanddeiliaid y byddai sefydlu corff ar gyfer y DU gyfan yn ddull priodol o weithredu. Nodir y buddion ym mharagraff 19 o'r adroddiad hwn. Y dull hwn fyddai'n dyblygu'r strwythur presennol orau. Os yw'r corff hwn yn mynd i fod yn gorff ar gyfer y DU gyfan, rhaid iddo gael ei gyd-gynllunio gan holl wledydd y DU; rhaid iddo fod yn atebol i ddeddfwrfeydd, yn hytrach nag i lywodraethau; rhaid iddo gael adnoddau priodol; a rhaid bod yna fecanweithiau priodol ar gyfer datrys anghydfodau.

Os na ellir bodloni'r meini prawf hyn, credwn y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ystyried dulliau amgen o weithredu, fel corff ar gyfer Cymru yn unig.

Trefniadau trosiannol

Mae rhanddeiliaid wedi croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fanteisio ar y cyfle deddfwriaethol cyntaf i gau'r bwlch llywodraethu. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder ynghylch sut a phryd y bydd hyn yn digwydd. Mae angen ymrwymiad gwleidyddol a chyfreithiol i sicrhau bod gennym gyfreithiau amgylcheddol sy'n gweithio ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae'n annhebygol y bydd corff olynol ar waith erbyn y diwrnod y mae'r DU yn gadael yr UE. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o gael trefniant trosiannol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni swyddogaethau rheoleiddio a gorfodi mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Rydym yn derbyn y bydd gofyn i gorff newydd arfer y swyddogaethau hyn yn effeithiol mewn trefniant parhaol. Dylai'r trefniadau dros dro fod ar waith hyd nes y gellir sefydlu corff olynol addas, naill ai ar lefel Cymru neu ar lefel y DU.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n cefnogi'r cam o sefydlu corff llywodraethu ar lefel y DU.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn, a hynny fel mater o frys, ar y trafodaethau sydd wedi digwydd gyda Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd o sefydlu corff ar gyfer y DU.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, a hynny fel mater o frys, ar unrhyw waith archwilio y mae wedi'i wneud at ddibenion asesu'r adnoddau y byddai eu hangen ar gyfer sefydlu corff yng Nghymru, ac ar unrhyw drafodaethau sy'n cael eu cynnal â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, a hynny fel mater o frys, ar unrhyw waith sy'n cael ei wneud i archwilio trefniadau trosiannol posibl ym maes llywodraethu amgylcheddol os nad yw corff llywodraethu yn cael ei sefydlu cyn i'r DU adael yr UE.

Argymhelliad 5. Rhaid i gorff llywodraethu ar lefel y DU fodloni'r meini prawf a ganlyn:

- rhaid iddo gael ei gyd-gynllunio gan holl wledydd gwahanol y DU;
- rhaid iddo fod yn atebol i ddeddfwrfeydd, yn hytrach nag i lywodraethau;
- rhaid iddo gael adnoddau priodol; a
- rhaid bod yna fecanweithiau priodol i ddatrys anghydfodau.

Argymhelliad 6. Rhaid i'r bensaernïaeth lywodraethu amgylcheddol newydd gynnwys y swyddogaethau a ganlyn:

- hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd ymhlith gweithredwyr y llywodraeth a'r gymuned ehangach;
- monitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir wrth weithredu cyfreithiau amgylcheddol, a darparu data gwyddonol hanfodol;
- cymryd camau lle nad yw targedau/amcanion yn cael eu cyflawni, er enghraifft drwy osod cosbau economaidd;
- sicrhau bod gan ddinasyddion a sefydliadau'r gymdeithas sifil fynediad at y systemau cwyno a gorfodi; a

- mabwysiadu strategaeth hirdymor sy'n mynd y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol.

3. Egwyddorion Amgylcheddol yr UE

26. Bwriad egwyddorion amgylcheddol yr UE yw llywio'r broses o ddatblygu cyfraith a pholisi'r UE er mwyn sicrhau bod safonau amgylcheddol uchel yn cael eu defnyddio wrth ddehongli cyfraith yr UE. Mae Erthygl 191 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn dweud bod yn rhaid seilio polisi amgylcheddol yr UE ar yr egwyddorion craidd a ganlyn:

- Yr egwyddor atal;
- Yr egwyddor y dylai niwed amgylcheddol, fel blaenoriaeth, gael ei unioni yn llygad y ffynnon;
- Yr egwyddor llygrwr sy'n talu; ac
- Yr egwyddor ragofalus.

27. Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn sail i nifer o gytundebau amgylcheddol rhyngwladol y mae'r DU wedi'u llofnodi, gan gynnwys y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r Confensiwn ar Newid yn yr Hinsawdd. Dywedodd yr Athro Cowell fod gan egwyddorion eraill yr UE nad ydynt yn egwyddorion amgylcheddol, fel sybsidiaredd, oblygiadau o ran llywodraethu amgylcheddol ac y dylid rhoi ystyriaeth iddynt.

28. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn na ddylid trin y rhestr o egwyddorion fel rhestr gwbl gynhwysfawr. Awgrymodd yr Athro Lee ei bod yn bosibl y bydd angen ystyried egwyddorion sy'n dod i'r amlwg, fel yr egwyddor 'di-atchweliad' a'r 'egwyddor integreiddio'. Fodd bynnag, rhybuddiodd Dr Jenkins na ddylid ceisio llunio rhestr or-gynhwysfawr, a hynny er mwyn osgoi gorgyffwrdd â'r egwyddorion sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd.

Sut y dylid cadw'r egwyddorion dan sylw?

29. Trafododd y rhanddeiliaid beth fyddai'r dull gorau o gadw'r egwyddorion amgylcheddol dan sylw. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fanteisio ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf i ymgorffori'r egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith.

30. Dywedodd yr Athro Cowell y dylai'r dull o gadw'r egwyddorion gael ei lywio gan drafodaethau ynghylch sut y gall yr egwyddorion hynny ddylanwadu ar y broses o weithredu a gorfodi deddfwriaeth amgylcheddol yn y modd mwyaf effeithiol.

31. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn cytuno y dylid cadw egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE drwy gyfrwng y gyfraith. Byddai hyn yn rhoi mwy o statws iddynt, o'i gymharu â'r cam o'u cynnwys mewn datganiad polisi. Yn eu barn hwy, mae'r egwyddorion wedi sicrhau bod deddfwriaeth amgylcheddol yr UE yn gydlynol, ac wedi rhoi cyfeiriad i'r broses o ddehongli cyfreithiol mewn achosion o amwysedd.

32. Derbyniwyd y ffaith y dylai'r trefniadau fod yn hyblyg, a hynny er mwyn sicrhau y gall yr egwyddorion barhau i esblygu er mwyn adlewyrchu penderfyniadau cyfreithiol a newidiadau cymdeithasol, ac er mwyn ymateb i rwymedigaethau rhyngwladol. Serch hynny, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid o'r farn ei bod yn hanfodol ymgorffori'r egwyddorion mewn deddfwriaeth.

33. Roedd teimlad ymhlith y rhanddeiliaid ei bod yn bwysig sicrhau bod yr egwyddorion yn berthnasol i holl adrannau'r llywodraeth a llywodraeth leol, ac nid dim ond i adran amgylchedd Llywodraeth Cymru.

Egwyddorion amgylcheddol ar gyfer y DU neu egwyddorion pwrpasol i Gymru?

34. Mae egwyddorion Cymru, fel rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) a datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), yn cydblethu ag egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE. Dywedodd Dr Jenkins fod egwyddorion Cymru yn cefnogi'r egwyddor atal a'r egwyddor ragofalus, ond bod llai o bwyslais ar yr egwyddor llygrwr sy'n talu. Mae hwn yn bwynt o wahaniaeth rhwng y sefyllfa yng Nghymru â safbwynt Llywodraeth y DU, sydd wedi pwysleisio'r egwyddor olaf yn ei Phapur Gorchymyn Amgylcheddol.

35. Roedd pryderon ynglŷn ag effaith bosibl gwahaniaethau rhwng deddfwriaeth yr UE, deddfwriaeth y DU, a deddfwriaeth Cymru, fel y diffiniadau o dermau penodol. Er enghraifft, mae'r diffiniad a ddefnyddir ar gyfer "datblygu cynaliadwy" yn neddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth Cymru yn wahanol.

36. Mynegodd y rhanddeiliaid bryderon ynghylch y gwrthdaro a allai godi rhwng y pwerau sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad a'r rhai a gedwir yn ôl ar lefel y DU.

Barn y Pwyllgor

O ran yr egwyddorion amgylcheddol, y cwestiwn yw: a ddylai'r egwyddorion amgylcheddol gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth, neu a fyddai dull arall o weithredu, fer enghraifft eu cynnwys mewn datganiad polisi, yn fwy priodol?

Awgrymwyd hefyd y byddai modd nodi'r egwyddorion yng nghylch gorchwyl unrhyw gorff llywodraethu newydd.

Y farn gadarn a fynegwyd gan ein rhanddeiliaid oedd y dylai'r pedair egwyddor amgylcheddol graidd, fan lleiaf, gael eu hymgorffori mewn deddfwriaeth. Rhaid bod hyblygrwydd yn y system hefyd er mwyn sicrhau y gall yr egwyddorion esblygu ac er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl ychwanegu atynt.

Mae'r Pwyllgor yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fanteisio ar y cyfle priodol cyntaf i ymgorffori'r egwyddorion mewn deddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ac yn cymeradwyo'r ymrwymiad hwn mewn egwyddor.

Rydym yn pryderu am y gwrthdaro posibl rhwng penderfyniadau Llywodraeth y DU ar faterion a gedwir yn ôl a pholisïau Cymru. Bydd yn bosibl i Lywodraeth y DU wneud penderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar Gymru a fyddai'n gwrthdaro'n uniongyrchol ag egwyddorion neu safonau sy'n cael eu mabwysiadu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ymarferol, gallai hyn olygu bod dwy set gyfochrog o safonau'n cael eu gweithredu yng Nghymru, a bod safonau amgylcheddol gwahanol, o bosibl, yn cael eu cymhwysu i faterion datganoledig a materion a gedwir yn ôl.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn ymgorffori'r egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith, a hynny cyn gynted â phosibl. Dylid cynnwys yr egwyddorion hynny ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 8. Fel mater o frys, dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn egluro pryd a sut y mae'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori'r egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith.

Argymhelliad 9. Fel mater o frys, dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor hwn ar y trafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y broblem lle gallai'r DU wneud penderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar Gymru ond sy'n gwrthdaro ag egwyddorion neu safonau amgylcheddol Cymru.

Atodiad A

Yr Athro Nicola McEwen	The UK in a changing Europe
Steve Lucas	Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod
Anne Miekke	WWF Cymru
Amy Mount	Y Gynghrair Werdd
Annie Smith	RSPB
Llinos Price	Coed Cadw
Dr Andrew Flynn	Prifysgol Caerdydd
Haf Elgar	Cyfeillion y Ddaear
Tom West	ClientEarth
Dr Rupert Read	Prifysgol East Anglia
Clare Trotman	Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Maddy Thimont Jack	Y Sefydliad Llywodraeth
Rebecca Williams	Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
William Wilson Amgylcheddol y DU (UKELA)	Gweithgor Cymru, Cymdeithas Cyfraith
Yr Athro Robert Lee	Ysgol y Gyfraith Birmingham
Huw Thomas	NFU Cymru
Charlotte Priddy	Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)